# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 5

CYFFREDINOL

### 42 Rhannu gwybodaeth

(1) Caiff partner iechyd meddwl lleol (partner 1) roi i bartner arall (partner 2)–

- (a) gwybodaeth a gafodd partner 1 wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 1 neu 3 o'r Mesur hwn; a
- (b) gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn y darperir neu y gellid bod yn darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol iddo gan bartner 2 neu oedolyn y mae partner 2 yn arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Mesur hwn mewn perthynas ag ef.

(2) Caiff awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a Gweinidogion Cymru roi i'w gilydd wybodaeth–

- (a) y mae unrhyw un neu ragor ohonynt wedi ei chael wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur hwn; a
- (b) sy'n ymwneud â chlaf perthnasol at ddibenion y Rhan honno.

(3) Nid oes dim yn is-adran (1) neu (2) sy'n awdurdodi datgelu unrhyw wybodaeth yn groes i unrhyw ddarpariaeth, neu a wneir o dan unrhyw ddarpariaeth, yn y Mesur hwn neu yn unrhyw Fesur arall neu yn unrhyw Ddeddf Seneddol neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (pryd bynnag y cawsant eu pasio neu eu gwneud) sy'n atal datgelu'r wybodaeth.

(4) Nid yw'r adran hon yn rhagfarnu unrhyw bŵer arall sydd gan awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol neu Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 42 mewn grym ar 6.6.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(u)**

**I3** A. 42 mewn grym ar 1.10.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 42.